**Pwyllgor Safonau Ymddygiad STD 02-99 (minW)**

**Dyddiad:** 11 Tachwedd 1999, am 2pm

**Lleoliad: Ystafe**ll Bwyllgor 2, Bae Caerdydd

**Presennol:**

*Aelodau*

Nick Bourne (Cadeirydd) Canolbarth a Gorllewin Cymru

Janet Davies Gorllewin De Cymru

Brian Hancock Islwyn

Gareth Jones Conwy

Richard Edwards Preseli Penfro

Val Feld Dwyrain Abertawe

John Griffiths Dwyrain Casnewydd

Christine Humphreys Gogledd Cymru

*Swyddogion*

Barbara Wilson Clerc i'r Pwyllgor Safonau

Julie Grant Dirprwy Glerc i'r Pwyllgor Safonau

Keith Bush Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

**Eitem 1: Cofnodion y pwyllgor diwethaf a sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1. Agorodd y Cadeirydd ail gyfarfod y Pwyllgor Safonau gan dynnu sylw aelodau at bresenoldeb y Clerc newydd, Barbara Wilson a'r cynrychiolydd o Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, Keith Bush.

2. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Karen Sinclair, De Clwyd.

3. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn ystyried oblygiadau'r ffaith ei fod ef yn dod yn arweinydd ei blaid ar ei safle fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau. Ar ôl ystyried yn ofalus roedd wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r

swydd. Roedd wedi trafod ei benderfyniad gyda’r Llywydd a’r Ysgrifennydd Busnes a chytunwyd y byddai’r Gadeiryddiaeth yn mynd i Geidwadwr arall. Byddai cynnig yn cael ei gyflwyno maes o law.

4. Roedd yn ddiolchgar i’r swyddogion a’r Aelodau am eu cefnogaeth yn ystod ei amser yn y Gadair.

5. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod diwethaf. Gofynnodd Christine Humphreys i’r dudalen gyntaf gael ei newid gan ei bod hi wedi ei rhestru fel rhywun ‘nad oedd yn bresennol’. Roedd dryswch wedi digwydd ac nid oedd wedi derbyn hysbysiad o’r cyfarfod cyntaf na’r papurau ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

6. Ymhellach i’r drafodaeth yn y cyfarfod cyntaf ynghylch llond llaw o gwynion posibl (tudalen 2, paragraff 6 o’r cofnodion), cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Llywydd wedi penderfynu nad oedd digon o dystiolaeth i warantu eu cyfeirio at y Pwyllgor.

Gweithredu:

1) Dylai’r Cadeirydd/Ysgrifenyddiaeth drafod gyda’r Ysgrifennydd Busnes er mwyn sicrhau lle ar gyfer cynnig i ethol Cadeirydd newydd.

2) Roedd y cyfeiriad nad oedd Christine Humphreys wedi mynychu i’w newid i adlewyrchu dryswch ynghylch yr hysbysiad.

**Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac adolygu gweithredoedd yn codi o STD-01-99**

**Papurau a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth – STD02-05-99; STD02-06-99; a STD02-07-99**

7. Nododd y Pwyllgor adroddiad yr Ysgrifenyddiaeth; dyma’r pwyntiau allweddol a gododd o’r drafodaeth:

Microffonau agored

Cytunwyd ag argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth.

Clwb Gwledig Caerdydd

Llongyfarchwyd Val Feld gan y Cadeirydd am ymddangos ar y rhaglen deledu "Week In, Week Out" oedd yn sôn am Glwb Gwledig Caerdydd. Cytunwyd y byddai’r eitem yn cael ei dwyn ymlaen i’r cyfarfod nesaf ac y dylai’r Ysgrifenyddiaeth baratoi papur i’w ystyried yn y cyfarfod hwnnw. Y mater allweddol oedd clustnodi’r meysydd hynny lle gallai gwrthdaro rhwng buddiannau ddatblygu, nad ydynt yn cael eu nodi trwy ddulliau eraill.

Gweithredu – Dylid dod â’r papur i’r cyfarfod nesaf, gan dynnu ar brofiadau cymharol mewn deddfwrfeydd a sefydliadau eraill.

Buddiannau Aelodau

Nodwyd bod rhai aelodau’n tueddu i gofrestru mwy na’r hyn sy’n rhaid iddynt wneud mewn gwirionedd er gwaethaf bod tîm y Swyddfa Gyflwyno wedi eu hannog i beidio. Roedd pryder ynghylch yr argraff y gallai hyn ei greu a’r posibilrwydd o wneud cymariaethau anffafriol. Cytunwyd y dylid atgoffa Aelodau o’r anghenion sylfaenol; y byddai’r Swyddfa Gyflwyno’n parhau i annog Aelodau i beidio gor-gofrestru; ac y byddai’r cyflwyniad i gyhoeddiadau’r Gofrestr yn y dyfodol yn egluro’r anghenion sylfaenol a’r ffaith fod rhai Aelodau yn awyddus i "ddatgan popeth".

*Datgan Diddordeb ac Adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru*

Amlinellodd Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol (SCC) y cyngor pellach ar adran 72 a chadarnhaodd nad oedd gan y Cynulliad yr hyblygrwydd i ddelio’n fewnol ag achosion "de minimis". Mae gan yr awdurdod sy’n erlyn, fodd bynnag, rywfaint o ddisgresiwn ac mae Swyddogion wrthi’n cytuno ar brotocol drafft gyda’r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, a fydd yn amlinellu trefn safonol ar gyfer delio ag achosion o’r fath. Nid oedd peidio â chofrestru yn drosedd (ond gallai fod yn destun cwyn i’r Pwyllgor Safonau); y broblem oedd cymryd rhan mewn trafodion heb gofrestru a/neu ddatgan diddordeb.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch union ofynion datgan diddordeb (gan gynnwys y geiriad) a mynegwyd pryder ynghylch a oedd Aelodau mewn gwirionedd yn cydymffurfio â’r anghenion a/neu yn glir yn eu cylch. Gwnaed y pwynt bod rheolau’r Cynulliad yn ymddangos yn llai llym na’r rhai oedd yn weithredol yn sector llywodraeth leol ac efallai fod angen diwygio’r rheolau sefydlog.

Cafodd ystyr "nawdd" ei godi yng nghyd-destun cofrestru treuliau etholiad (paragraff 5 STD02-06-99) ac roedd yn amlwg bod gwahaniaeth barn o ran beth oedd ei angen.

<u>Gweithredu</u> **–**

1) Dylid cynnwys nodyn yn y Cyflwyniad i gyhoeddiadau’r Gofrestr yn y dyfodol i nodi’r ffaith fod rhai Aelodau’n dewis cofrestru mwy nag oedd angen.

2) Dylid paratoi a dosbarthu arweiniad ymarferol i Aelodau ynghylch gweithredu’r rheolau sy’n bodoli’n barod ar gyfer cofrestru a datgan.

3) Gofynnwyd i’r Ysgrifenyddiaeth geisio barn ddiffiniol gyfreithiol ar "nawdd ar gyfer treuliau etholiad" i’w chynnwys yn yr arweiniad i Aelodau.

4) Dylid paratoi papur ar gymariaethau rhwng trefniadau’r Cynulliad a threfniadau oedd yn weithredol mewn mannau eraill.

**Eitem 3: Cwynion a Rôl Yr Ymgynghorydd Annibynnol (Prif Fusnes) (60 munud)**

**Papurau i’w hystyried a’u cymeradwyo – STD02-08-99, Atodiadau 1-3**

8. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai’r Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu’r hysbyseb ddrafft (y cyfeirir ati ym

mharagraff 2 o’r papur), o fewn y diwrnod neu ddau nesaf. Gwahoddwyd sylwadau gan Aelodau.

<u>Gweithredu</u> – Dylai’r Ysgrifenyddiaeth ddosbarthu’r hysbyseb; aelodau i ymateb gyda sylwadau.

9. Cyflwynodd SCC y papur a’r egwyddorion sylfaenol sy’n sail i’r trefniadau arfaethedig ar gyfer delio â chwynion yn erbyn Aelodau. Mae darpariaeth troseddol adran 72; y ffaith mai corff bach yw’r Cynulliad; ac y bydd ymchwiliadau o reidrwydd yn cynnwys unigolyn sy’n adnabyddus i’r pwyllgor (ac o un o bleidiau’r Aelodau) i gyd yn golygu bod rhaid i’r trefniadau fod yn deg a diduedd, a chael eu gweld felly.

10. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried a chymeradwyo’r ddau gynnig ar gyfer cyfarwyddiadau sefydlog:

> *(1) cyfeirio pob cwyn yn awtomatig at y Cynghorydd Annibynnol ar gyfer ymchwiliad cychwynnol* – byddai hyn yn sicrhau cyn lleiaf o oedi â phosibl ar ôl i’r Llywydd gyfeirio’r mater at y Pwyllgor ac yn cynnig yr amddiffyniad gorau posibl i Aelodau rhag cwynion di-sail a blinderus.
>
> *(2) cyfeirio unrhyw achosion adran 72 posibl a glustnodwyd gan yr Ymgynghorydd yn awtomatig ar yr heddlu*– barn y cyfreithiwr oedd na ddylid cael unrhyw awgrym bod Aelodau’n ymwneud â phenderfynu a ddylid cyfeirio achos at yr heddlu a hefyd y dylid amddiffyn y Pwyllgor rhag y perygl o niweidio achos troseddol posibl.

Cytunwyd i’r ddau gynnig.

11. Gwahoddwyd y Pwyllgor hefyd i nodi ei farn ynglþn ag a ddylid mabwysiadu dull o weithio tebyg i’r Tþ Cyffredin wrth ystyried beth sy’n gðyn. (Nid yw’r Tþ Cyffredin yn ystyried cwynion dienw; nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw gðyn ar sail hanes mewn papur newydd neu adroddiad teledu yn unig fel honiad cadarnhaol. Mae STD02-08-99, tudalen 4, y nodyn mewn llythrennau italaidd yn cyfeirio at hyn.) Cafwyd cefnogaeth i’r dull hwn ar yr amod na fyddai’n diystyru cyfres o erthyglau neu adroddiadau a fyddai, ym marn Pwyllgor, yn ffurfio tystiolaeth resymol. Roedd y Pwyllgor hefyd yn fodlon cynnwys y gwaith o gynnal math o adolygiad fel rhan o’i rôl yn unol â’r hyn a ragwelwyd yn y nodyn mewn llythrennau italaidd ar dudalen 6 o STD02-08-99.

12. Roedd peth pryder ynghylch ffurfioldeb y dull gweithio a chafwyd trafodaeth fer ar y posibilrwydd o gael dull anffurfiol ar gyfer delio â "mân" gamymddygiadau. Cytunwyd y dylai SCC ymchwilio i’r mater ac adrodd yn ôl.

13. Cadarnhaodd SCC bod gallu’r Pwyllgor i argymell cosbau i’r Cynulliad yn gyfyngedig i wahardd yr Aelod dan sylw, er yn unol â gorchymyn sefydlog 4.8 byddai ganddynt hawl i ddefnyddio disgresiwn wrth nodi cyfnod y gwaharddiad.

14. Cytunwyd fod y dull gweithredu arfaethedig yn dderbyniol os byddai ychydig o bwyntiau bychain yma ac acw yn cael eu hystyried. Dylai’r Ysgrifenyddiaeth fwrw ymlaen i wneud trefniadau fel oedd wedi’u hamlinellu yn Atodiadau 2 a 3 o STD02-08-99. Yn ogystal, o ystyried rhai o’r materion sensitif oedd yn gysylltiedig, teimlid y dylai’r holl Aelodau gael cyfle i fynegi barn ar y drafft - er nad oedd rhaid i hyn achosi oedi cyn symud ymlaen i’r cam nesaf.

15. Cafwyd trafodaeth fer ar atodiadau 2 a 3 (cynnig drafft a chynllun recriwtio). Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r cynnig gael ei gyflwyno yn enw'r holl Aelodau ac y dylid ei roi gerbron sesiwn cyflawn cyn diwedd y mis. Cytunodd y Pwyllgor ymhellach y dylid cynyddu ei gynrychiolaeth ar y paneli dewis a chyfweld o 1 (y Cadeirydd) i hyd at 4 Aelod. Roeddent o'r farn y dylai rôl Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad gefnogi'r broses yn hytrach na chymryd rhan yn y broses ddewis.

<u>Gweithredu</u> –

1) Dylid ystyried y posibilrwydd o gynnwys dull gweithio 'anffurfiol' ar gyfer cwynion o fewn y system arfaethedig.

2) Dylid ymgynghori ag aelodau ynghylch y dull gweithredu drafft ar gyfer cwynion; roedd y nodyn i gynnwys cyd-destun llawn y gorchmynion sefydlog a'r llif ddiagram.

3) Penderfyniad y Cynulliad ar benodiad Ymgynghorydd Annibynnol : Roedd adeg i'w glustnodi cyn diwedd mis Tachwedd; y cynnig i'w gyflwyno yn enw'r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor.

4) Dylai'r panel gynnwys mwy o Aelodau'r Pwyllgor (hyd at 4 o bosibl). Dylid cytuno ar drefniadau a'u cadarnhau gydag Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf.

5) Yr Ysgrifennydd Parhaol i'w dynnu oddi ar y Panel Dewis/Cyfweld ar gyfer Ymgynghorydd Annibynnol.

**Eitem 4: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

16. Roedd y Cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 2pm ar 10 Chwefror. Mynegwyd pryder ynghylch yr angen am gyfarfod cyn hynny a chytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i edrych i mewn i'r posibilrwydd. Nodwyd, o ystyried amserlen Pwyllgor oedd dan bwysau ac yn cynnwys Gwyliau'r Nadolig, y gallai hyn fod yn anodd. Beth bynnag, gellid dosbarthu papurau a cheisio barn y tu allan i gyfarfod ffurfiol a chytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ynghylch y datblygiadau.

<u>Gweithredu</u> –

Edrych ar y posibilrwydd o gynnal cyfarfod ychwanegol, hy cyn 10 Chwefror.

***Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau***

***Swyddfa'r Llywydd***

| **Eitem** | **Gweithredu** | **Gan Bwy?** |
|---|---|---|
| Cadeirydd newydd y Pwyllgor (Eitem 1 ar yr Agenda) | Cysylltu â'r Ysgrifennydd Busnes i sicrhau lle ar gyfer cynnig i ethol Cadeirydd newydd. | Cadeirydd/Ysgrifenyddiaeth |
| Cofnodion STD01-99<br><br>(Eitem 1 ar yr Agenda) | Cyfeiriad at Christine Humphries heb fod yn bresennol i'w ddiwygio i adlewyrchu dryswch wrth hysbysu. | Ysgrifenyddiaeth |
| Clwb Gwledig Caerdydd | Papur i'w gyflwyno yn y cyfarfod nesaf, gan dynnu ar brofiadau cymharol mewn deddfwrfeydd a sefydliadau eraill. | Ysgrifenyddiaeth |
| Cofrestr o Fuddiannau Aelodau<br><br>(Eitem 2 ar yr Agenda)<br><br>Datgan Diddordeb<br><br>(Eitem 2 ar yr Agenda) | Nodyn i gael ei gynnwys yn y Cyflwyniad i gyhoeddiadau o'r Gofrestr yn y dyfodol i wneud y pwynt bod rhai Aelodau'n dewis cofrestru mwy nag sydd angen.<br><br>Arweiniad manwl i'w greu a'i ddosbarthu i Aelodau gan amlinellu sut y gellid gweithredu'r gofynion ar gyfer datgan diddordebau yn ymarferol.<br><br>Yr ysgrifenyddiaeth i chwilio am farn ddiffiniol gyfreithiol ar "nawdd ar gyfer treuliau etholiad" i gael ei chynnwys yn yr arweiniad i Aelodau.<br><br>Ymchwil i gael ei wneud i drefniadau datgan mewn sefydliadau eraill ee llywodraeth leol; San Steffan, ac ati. Cyflwyno papur yn y cyfarfod nesaf. | Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth/Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol<br><br>Ysgrifenyddiaeth/Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ysgrifenyddiaeth/Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Ymgynghorydd Annibynnol<br><br>(Eitem 3 ar yr Agenda) | Hysbyseb ddrafft i'w dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>Cyflwyno sylwadau i'r Ysgrifenyddiaeth. | Ysgrifenyddiaeth<br><br>Aelodau'r Pwyllgor |
| Y Drefn Gwyno<br><br>(Eitem 3 ar yr Agenda) | Rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o gynnwys dull gweithio 'anffurfiol' ar gyfer cwynion o fewn y system arfaethedig.<br><br>Cysylltu ag Aelodau ynghylch y dull cwyno drafft; nodyn i gynnwys cyd-destun llawn y gorchmynion sefydlog a llif ddiagram. | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol/ Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| Manyleb Swydd ar gyfer Ymgyngorydd Annibynnol<br><br>(Eitem 3 ar yr Agenda) | Ysgrifennydd Parhaol i gael ei dynnu oddi ar y Panel Dewis/ Cyfweld.<br><br>Panel i gynnwys mwy o Aelodau'r Pwyllgor (o bosibl hyd at 4). Trefniadau i gael eu cytuno a'u cadarnhau gydag Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf. | Ysgrifenyddiaeth<br><br>Ysgrifenyddiaeth |
| Penderfyniad y Cynulliad ar benodi Ymgynghorydd Annibynnol<br><br>(Eitem 3 ar yr Agenda) | Sicrhau lle cyn diwedd mis Tachwedd; Cynnig i gael ei gyflwyno yn enw'r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor. | Ysgrifenyddiaeth |
| Cyfarfod Interim<br><br>(Eitem 4 ar yr Agenda) | Edrych ar y posibilrwydd o gynnal cyfarfod ychwanegol cyn 10 Chwefror. | Ysgrifenyddiaeth |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**

**Swyddfa'r Llywydd**